5.13

# CWM RHONDDA—A FU AC Y SYDD.

Llinellau a ddarllenwyd yng Nghyfarfod Cymrodorion Ferndale yn Nasareth (B.), Blaenllechau, Mawrth 7, 1922.

Chwi, Gymrodorion glan,
  O Gwm Blaenllechau,
Gwrandewch ar hyn o gân,
  'Nawr ar y dechreu;
Mi garwn fynd a chwi
  Mewn gwyllt ddychymyg
Am dipyn bach o spri,
  Am ryw ychydig.
O graig y Gilwern draw,
  Chwi welwch wyllt olygfa;
Cwm Aman ar un llaw,
  A thanom ni Gwm Rhondda;
Cwm enwog am ei faw,
  Ei fwg, a'i darth a'i gulni;
A Chwm sy'n dda am law,
  I olchi ei fudreddi.
Ar lan yr afon ddu,
  Lle gynt yr oedd brithyllod,
Yn chwarae yn y lli,
  Y gwelid glan fythynnod;
Ond dyna sydd yn awr,
  Ar lan yr afon,
Yw tips o rwbish mawr,
  Fel effaith Mamon.
Pa le mae'r Cyngor Trefol
  A'r Cyngor Sirol mawr,
Yn godde'r fath fudreddi
  Yng Nghwm y Rhondda fawr
Mae ysbryd Evan Llewelyn
  O fferm y Maerdy draw,
Mewn gwewyr pan yw'n gweled
  Yr afon yn llawn baw;
Ac Evan o Flaenllechau
  Sy'n edrych gyda gwg;
Wrth weled Cwm y Rhondda fach
  Yn llawn o darth a mwg.
Pe delai'r hen frodorion
  Yn ol i'r cwm am dro,
Yn lle cael meysydd gwenith,
  Caent weled pyllau glo;
Ac yn lle cân bugeiliaid,
  A glywid ddyddiau gynt,
'Does dim ond dolef corn y gwaith
  Yn dyfod gyda'r gwynt,
Yn galw ar drigolion
  Yr ardal, fawr a mân,
I fynd i lawr i dorri glo,
  Er mwyn i'r byd gael tân;
Ac nid yw swn yr heliwr
  I'w glywed gyda'r dydd,
"Yn hela ar y bryniau pell,
  Y llwynog coch a'r hydd";

D 354 W 180 21/2

Ond dim ond swn y llanciau
  Yn chwarae y bêl droed,
Nes yr adseiniai creigiau'r cwm,
  Ni fu'r fath swn erioed.
Yn lle cael Gwyl Mabsantau
  Ar ben y mynydd glân,
Rhaid mynd yn awr i'r Workmen's
    Hall
  I weled dawns a chân;
Rhaid mynd bob nos, fe ddichon,
  Yn awr i'r Workmen's Hall,
I weled yno'r Cinema,
  Y turns, y dance, a'r ball.
Pentyrrant ar ei gilydd—
  Mae'r peth wy'i ddweyd yn driw—
A'u hanner nhw'n dod mas y nos,
  Bron sythu gan y ffliw;
Mynd wedyn ar eu hunion
  I brynu Fish and Chips;
A thyfa coesau plant yr oes
  Yn feinion megis whips.
Nid oedd yr adeg honno
  'Run plisman yn y lle;
'Roedd moesau'n tadau ni mor dda,
  'Doedd dim o'i isha fe;
Ond erbyn hyn fe welir
  Rhyw naw neu ddeg o blis,
Ac arian y trethdalwyr
  Yn mynd i ffwrdd fel us.
Yr oedd yr hen frodorion
  Yn onest—neb yn llwm;
Peth newydd ddod i Rhondda Fach
  Yw'r dyn a elwir "bwm."
Nid oedd dim "Plisman Ysgol,"
  Yn edrych am y plant;
Gwirfoddol oedd eu haddysg nhw,
  Heb son am "Fisher Grant."
Fe wawriodd y milflwyddiant
  Ar Ysgolfeistri i gyd;
Pe croesent y terfyngylch,
  Ni byddent well eu byd;
Pum awr y dydd a weithiant,
  A phump o ddyddiau gwaith;
A beth yw barn y rhain am rai
  Sy'n gorfod gweithio saith?
Nid oedd y "diwaith" hefyd
  Yn bod y dyddiau fu,
Na neb yn derbyn "tal y tlawd,"
  Fel yn ein dyddiau ni;
Ond pawb yn gwneud ei oreu
  I'w gymydog megis brawd,
A phawb yn parchu'i gilydd,
  Bonheddig fel y tlawd.
Arferiad yr hen bobl
  Oedd mynd i 'Bastai' nain.
'Roedd rhai yn yfed "cwrw bach,"
  Ac eraill "ddiod fain";
Ond nid oedd neb yn meddwi
  Yn nyddiau fy mamgu,
Ond pawb yn ddynion sobr, piwr,
  Yn debyg iawn i ni.

X205212191

Nid oedd dim dynion bychain
  Yn bod o fewn y plwy',
'Roedd pawb yn 'hoelion wyth' i gyd,
  A rhai yn llawer mwy,
Eu bwyd oedd llaeth a bwyd blawd
    ceirch,
  Ac hefyd fara haidd;
Eu gwaith oedd trin y meysydd,
  A mynd ar ol y praidd.
Arferiad hyfryd arall
  Oedd gan hen Gymry glân,
Oedd cwrdd ynghyd ar noson oer
  Yn gylch oddeutu'r tân;
I adrodd eu tribannau,
  A son am dylwyth teg;
Diniwed oedd y tadau gynt,
  Heb ddywedyd llw na reg.
'Roedd Thomas Hywel Llewelyn,
  Yng nghwm yr Ystrad draw,
Am nyddu can neu englyn,
  Yr oedd yn eithaf llaw;
A Siams, o Cefn Tylchau
  a ddeuai yn ei dro;
'Roedd yntau megis prydydd,
  Yn enwog yn y Fro;
Job Morgan o Lanwyno,
  'Roedd yntau'n eithaf gwr,
A'r awen ynddo'n llifo'n
  Llifeiriol fel y dwr.
At Evan o Flaenllechau,
  Mewn brys fe gyrchai'r tri;
Gan wybod hyn—fod croeso mawr
  I'w gael gan wr y ty;
Nosweithiau ym Mlaenllechau
  Fe gwrddai'r tri ynghyd
I nyddu eu tribannau pert,
  Heb ddim gofalon byd.
Y byd sydd wedi newid,
  Y rhod sydd wedi troi,
A hen arferion "Cymru Fu"
  I gyd sydd wedi ffoi.
Nid oedd yr un Cyfreithiwr
  Tu yma i Gaerdydd;
O bob rhyw fan ymryson,
  Yr oeddynt oll yn rhydd.
Anaml gwelid Meddyg
  Pryd hyn yn teithio'r cwm;
Ni wyddant ddim am 'gryd a mwyth,'
  Nag unrhyw glefyd trwm;
Mi welaf mewn dychymyg,
  O fyd ac arall fro;
Bydd pyllau Cwm y Rhondda
  Wedi "cwpla cwnnu glo,"
A'r holl dramorwyr diarth
  Fydd wedi mynd sha thre,
A dyna waredigaeth
  Fydd hynny, onide?
Aiff yr "Italians" adref,
  Y dynion bydol, cul,
Y rhai sy'n torri'n cyfraith ni
  Trwy agor ar y Sul.

Bydd raid i'r rhain fynd adref,
  A'u "hice-cream" gyd nhw;
A'r wlad a gafodd lonydd,
  Fedd wedyn, mi wnaf lw.
A bechgyn melyn China,
  A'u hopium i gael 'smoke,'
Heb ofni yr Inspector
  I'w herlid,—dyna 'joke.'
'R Inspector â yn ffyddlon
  I Dre'rhondda ar y Sul;
Mae hwnnw yn lle purion
  I swyddogion Robert Peel;
Pe byddai yn fwy goleu,
  Fe ddelsai gyda mi,
I Gapel Wesley, High Street,
  Lle gwelir dynion cry'.
Fe aiff y Sais tuag adref,
  A gwared da ar ei ol,
Oherwydd pan ddaeth yma,
  Daeth ag arferion ffol;
Sef saethu colomennod,
  A mynd ar ol y pry';
Arferion yw y rhain i gyd
  Sy'n ddiarth iawn i ni.
Fe aiff y Sais tuag adref,
  Efe a'i filgi main;
A dyna waredigaeth
  Fydd cael gwaredu'r rhain.
Ond er yr holl gymysgaeth
  Sydd yn y Rhondda fach,
Mae eto'n aros yn ein plith
  Rai gwyr o uchel ach:
Sef Cymrodorion glewion,
  Sydd heno'n cwrdd ynghyd;
Y rhain barablant iaith eu mam
  A ddysgwyd yn eu crud.
Cymraeg oedd iaith y Rhondda,
  A hynny er ei chlod,
Cymraeg leferir eto
  Am oesau eto i ddod.

Ll. M.

*O'r Darian, Ebrill, 1922.*

Llewelyn Morgan
Wesleyan Minister
41 North Rd
Ferndale.

---

Argraffwyd gan
Hy. Lloyd [Ap Hefin], 11, Seymour Street, Aberdar.